# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 2 Chwefror 2017

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00 - 09.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Bil yr Undebau Llafur (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 1: Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

(09.15 - 10.45) (Tudalennau 1 - 19)

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Paul Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio Gwasanaethau Datganoledig
Nicola Charles, Cyfreithwraig

Bil yr Undebau Llafur (Cymru)
Memorandwm Esboniadol

## Egwyl (10.45 - 11.00)

## 3 Craffu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

(11.00 - 12.00) (Tudalennau 20 - 43)

Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Marie Brousseau-Navarro, Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesedd

## 4 Papurau i'w nodi

**Gohebiaeth gan y Llywydd mewn cysylltiad â Senedd@Casnewydd**

(Tudalennau 44 - 45)

**Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn cysylltiad â 'Llais Cryfach i Gymru: ymgysylltu â San Steffan a sefydliadau datganoledig'.**

(Tudalennau 46 - 52)

**Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn cysylltiad â ffoaduriaid a cheiswyr lloches**

(Tudalennau 53 - 54)

**Gohebiaeth gan y Cadeirydd at y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo mewn cysylltiad â ffoaduriaid a cheiswyr lloches**

(Tudalennau 55 - 57)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 6 Craffu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - trafod tystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 3

(12.00 - 12.15)

## 7 Bil yr Undebau Llafur (Cymru) - trafod y dystiolaeth o dan eitem 2

(12.15 - 12.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

*"Yr hyn y mae Cymru'n ei wneud heddiw,
gobeithiwn y bydd y byd yn ei wneud yfory –
gweithredu yn fwy na geiriau yw'r gobaith ar gyfer*

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory

**Gwahoddiad i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau mewn cysylltiad â Rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.**

*cenedlaethau'n dyfodol "* – Y Cenhedloedd Unedig

Yn dilyn eich gohebiaeth, dyddiedig 5 Rhagfyr 2016, rydw i'n falch i fedru darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar fy rôl fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru cyntaf. Mae'r pwyllgor wedi gofyn i mi:

**(1)** Ddarparu diweddariad ar waith y Comisiynydd gyda ffocws penodol ar feysydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor
**(2)** Archwilio blaenoriaethau'r Comisiynydd yn fwy cyffredinol
**(3)** Ceisio barn y Comisiynydd ar amcanion llesiant Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar

## Diweddariad ar waith y Comisiynydd gyda ffocws penodol ar feysydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor

Cawsom ymateb cadarnhaol, ysgubol oddi wrth gyrff cyhoeddus ac eraill i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i photensial i newid pethau er gwell.

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed gyda phartneriaid i sefydlu'r swyddfa a'r seilwaith yn barod ar gyfer cynorthwyo cyrff cyhoeddus i ymdopi â'u dyletswyddau a'u gofynion newydd.

Rwy'n benderfynol o sicrhau bod egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum dull o weithio a nodir yn y Ddeddf yn rhan hanfodol o fy ngwaith. Y pum dull o weithio yw: cynllunio ar gyfer yr hirdymor, gweithredu i atal pethau rhag gwaethygu, mabwysiadu ymagwedd integredig, cydweithio gydag eraill ac ennyn ymgyfraniad pobl â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant.

Gan gadw hyn mewn golwg, cychwynnais ar fy rôl drwy fynd o le i le i wrando ar ystod eang o bobl yn unol â'r egwyddor ymgyfrannu. Rwyf wedi siarad â nifer o sefydliadau o ystod eang o sectorau ac rwyf wedi bod yn adolygu'r sylfaen dystiolaeth i ddeall yn well yr heriau allweddol sy'n wynebu Cymru yn yr hirdymor. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd gyda phob un o'r 44 corff cyhoeddus, digwyddiadau ymgysylltu cynnar gyda sefydliadau ac unigolion yn cynnwys y trydydd sector, cyfarfodydd gydag Aelodau'r Cynulliad a sefydliadau cymunedol.

Er mwyn cael effaith gwirioneddol sy'n arwain at newid parhaol, rwyf hefyd wedi bod yn datblygu ymagwedd sy'n gwneud y gorau o fy adnoddau drwy bennu meysydd blaenoriaeth ar gyfer

gweithredu. Rwyf wedi cychwyn sgwrs barhaol gydag arbenigwyr, academyddion a rhanddeiliaid i ennyn eu hymgyfraniad yn natblygiad fy mlaenoriaethau, er mwyn sicrhau mai'r rhain yw'r rhai cywir ar gyfer canolbwyntion cymorth, ein her a'n gweithredu arnynt. Gweler manylion am hyn ymhellach ymlaen isod.

**1- Sefydlu'r swyddfa**

Rwyf wedi canolbwyntio'n arbennig ar egwyddorion cydweithio, integreiddio ac ymgyfrannu wrth sefydlu fy swyddfa. Rwy'n dymuno i fy nhîm gynrychioli'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill – sef gweithredu yn ogystal â siarad. Rwy'n eu herio i ddefnyddio'r pum dull o weithio ym mhopeth yr ydym yn ei wneud.

Rwyf wedi sefydlu ystod o secondiadau a phenodiadau partneriaeth. Golyga hyn bod y tîm ar hyn o bryd yn cynnwys 22 o bobl o ystod eang o gefndiroedd sefydliadol, yn cynnwys y rhai a drosglwyddwyd i mi drwy gyfrwng TUPE (Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981.) Penodwyd naw o bobl ar sail barhaol (8.2 Cyfwerth ag Amser Llawn), mae chwech o bobl gennym am dymor byr a chwech arall (4.4 Cyfwerth ag Amser Llawn) ar secondiad o sefydliadau partneriaid. Hyd yn hyn rydym wedi cael secondiadau a chyd-benodiadau gyda'r Comisiynydd Plant, Llywodraeth Cymru, Renewables UK a Heddlu De Cymru. Golyga hyn bod dros hanner y swyddi wedi eu cyrchu'n hyblyg naill ai drwy secondiad/cytundeb partneriaeth neu drwy gyfrwng cytundebau tymor byr.

Rwyf hefyd yn trafod gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr drefniadau gweithio ar y cyd yn 2017-18. Byddaf yn ceisio ennyn ymgyfraniad grwpiau o dan anfantais o fewn fy ngweithlu drwy ddarparu prentisiaethau i bob oed. Rydym hefyd yn archwilio cytundeb partneriaeth gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Yn ysbryd integreiddio, rydym yn archwilio'r dulliau gorau o osgoi dyblygu ac yn cydweithio gyda sefydliadau eraill, er enghraifft, gyda Llywodraeth Cymru wrth ddylunio Tueddiadau'r Dyfodol a gwaith senarios a gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth symud tuag at ataliad, yn arbennig wrth fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Rwyf wedi sefydlu Panel Ymgynghori statudol (fel sy'n ofynnol o dan adran 26 o'r Ddeddf) yn ogystal â fy Mhwyllgor Sicrhau Archwilio a Risg.

Rwy'n rhannu fy swyddfa gyda Chomisiynydd y Gymraeg ac yn defnyddio gofod a ddarparwyd ym Mhrifysgol Bangor ar gyfer staff sy'n seiliedig yng ngogledd Cymru. Rwy'n rhannu fy swyddogaeth Adnoddau Dynol gyda'r Comisiynydd Plant, fy swyddogaeth cyflogres gyda'r Ombwdsmon ac rwyf wedi sicrhau trefniadau archwilio mewnol ar y cyd â Chomisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant ac Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru.

Rydym ar fin symud i'r cyfnod nesaf o'n gwaith a byddwn yn ymgysylltu ac yn ennyn ymgyfraniad eraill i'n helpu i ddylunio a mabwysiadu dulliau mewnol cynaliadwy o weithio.
Gan adeiladu ar yr ymgysylltiad cychwynnol o fewn fy nhîm a gyda rhanddeiliaid, rwyf wedi diffinio diben y sefydliad parthed:

- Amlygu materion o bwys, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wyneb cenedlaethau'r dyfodol
- Cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus i feddwl am effaith hirdymor yr hyn a wneir ganddynt
- Gweithio gydag eraill i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen
- Gweithredu yn ogystal â siarad – cynrychioli'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill

A chadw mewn golwg gwmpas enfawr fy rôl a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'm hadnoddau cyfyng, rydym yn y broses o ddiffinio sut y gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf a defnyddio'n hadnoddau yn y dull mwyaf effeithiol. Mae'r ymagwedd hon yn arwain datblygiad fy nghynllun strategol. Nid oes gennyf yr adnoddau i ddadansoddi nac ymyrryd ym mhob mater a allai ddod o fewn cylch gwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n bwysig i mi gael sylfaen dystiolaeth gadarn y gallaf seilio fy argymhellion arni neu roi cyngor a herio cyrff cyhoeddus, pan fydd angen, ar y modd y maent yn cwrdd â'u hamcanion a'u cynlluniau llesiant.

**2- Ymgysylltiad a chydweithio cychwynnol**

Mae ymgyfraniad ac ymgysylltiad da yn hanfodol ar gyfer cyflawni Cymru gynaliadwy. I ddeall yn well yr heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu ein cyrff cyhoeddus, euthum o le i le i gwrdd â phob un o'r 44 corff cyhoeddus sy'n gyfrifol o dan y Ddeddf, gan ymgysylltu â dros 80 sefydliad ar draws Cymru ac yn rhyngwladol, a siarad mewn dros 80 o ddigwyddiadau i godi proffil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rwyf wedi cychwyn sgwrs am y modd y gall y Ddeddf greu newid ac wedi cychwyn deialog dwy-ffordd i lywio fy nghynllun gwaith cynnar ac ardaloedd blaenoriaeth y gellir canolbwyntio'n gwaith arnynt.

Mae pobl wedi dweud wrthyf eu bod yn gweld y rhwystrau i weithrediad y Ddeddf fel; diffyg caniatâd i newid, cyfyngiadau'r archwiliad presennol a phrosesau arolygu, y myrdd o ddangosyddion perfformiad a'r targedau sy'n rhaid iddynt eu mesur ac adrodd yn eu herbyn a'r diwylliannau sefydliadol sy'n bodoli. Mae'r adborth cynnar hwn wedi ei gasglu ynghyd yn yr adroddiad *Siarad Cenedlaethau'r Dyfodol.*

Mae yna lawer o ddiddordeb rhyngwladol arwyddocaol yn ein deddfwriaeth ac rwyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr o ystod o wahanol wledydd sy'n awyddus i ddysgu mwy am y Ddeddf. Yn ddiweddar cefais fy ethol yn gadeirydd y Rhwydwaith o Sefydliadau Cenedlaethau'r Dyfodol, grŵp o gyrff cyhoeddus â chyfrifoldeb ffurfiol am genedlaethau'r dyfodol a datblygu cynaliadwy sy'n cynorthwyo dysgu rhwng aelodau, yn hybu datblygiad y fath sefydliadau drwy'r byd ac yn hyrwyddo creadigaeth Uwch Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y Cenhedloedd Unedig.

Yn ysbryd yr egwyddor cydweithio rwy'n gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru i gychwyn trafodaeth ar y newidiadau sydd eu hangen yn y modd y mae archwilio'n cael ei weithredu, er mwyn cael gwared â'r rhwystrau posibl i weithrediad y Ddeddf. Rwyf hefyd yn gweithio'n agos gyda thîm Cyfnewid Arfer Da'r Swyddfa Archwilio. Mae hyn yn golygu helpu a chynghori er mwyn cynorthwyo dysgu ar y cyd am weithredu.

Er nad yw wedi ei gwmpasu gan y ddeddfwriaeth, mae gan wasanaeth yr heddlu ddiddordeb arwyddocaol mewn defnyddio egwyddorion y Ddeddf yn eu gwaith. Mae Heddlu De Cymru wedi clustnodi adnodd i weithio gyda fy swyddfa wrth ddefnyddio egwyddorion y Ddeddf yn eu strategaeth ystâd, gan roi prawf ar rai o'r dulliau o weithio yr ydym yn eu datblygu i gynorthwyo cyrff

cyhoeddus. Bydd hyn yn hyrwyddo ymagwedd sy’n canolbwyntio mwy ar brawfesur ystadau’r dyfodol, gan sicrhau bod datblygiad adeiladau nid yn unig yn addas ar gyfer heddiw, ond yn ymgorffori gweledigaeth ar gyfer gwaith plismona’r dyfodol. Bydd hefyd yn sicrhau mwy o ffocws ar effaith amgylcheddol adeiladau a’r effaith a gânt ar lesiant staff. Drwy fabwysiadau’r ymagwedd hon bydd yn rhoi gwell gwasanaeth i’r cyhoedd, tra’n sicrhau gwelliant yn effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Heddlu De Cymru.

Rwyf wedi datblygu rhaglen ar y cyd â’r Comisiynydd Plant sef *Mewnosod Hawliau Plant i Genedlaethau’r Dyfodol*. Nod y rhaglen yw helpu cyrff cyhoeddus drwy atal dyblygu ac anghysondeb yng ngwaith gofynnol cyrff cyhoeddus parthed Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn a  Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a bydd yn datblygu rhai dulliau ymarferol o weithio i helpu cyrff cyhoeddus i feddwl am y modd y gallant wneud hawliau’r plentyn a datblygu cynaliadwy’n rhan hanfodol o’u gwaith.

Rydym hefyd yn datblygu cydweithio pellach ar brosiectau ar y cyd â Sefydliad Bevan ynghylch yr egwyddor ymgyfrannu, ynghyd â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn ymwneud â nod Cymru sy’n Gyfrifol yn Fyd-eang, yn ogystal â datblygu gwaith gyda’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ddeall y gorgyffwrdd a’r dull mwyaf effeithiol o ddefnyddio’n gwahanol bwerau i sbarduno newid.

**3- Darnau cynnar o waith**

Ochr yn ochr â datblygiad y blaenoriaethau ar gyfer fy swyddfa, rwyf wedi penderfynu ystyried prosiectau penodol a phenderfyniadau na allent aros i’r rhain gael eu cwblhau.

Arweiniodd hyn fi i ddiffinio meini prawf ar gyfer ymgysylltu â phrosiectau penodol sy’n cynnwys: edrych i weld a fedrwn ddylanwadu ar y broses; ystyried maint y prosiect a’r penderfyniadau sy’n cael eu gwneud; a oes mwy nag un rhan o Gymru neu isadran sylweddol o'r boblogaeth yn cael eu heffeithio; ystyried a ydyw’r mater yn drawsbynciol, ar draws nodau llesiant, ar draws sectorau neu faterion (er enghraifft mewn perthynas â thlodi neu iechyd). Rhaid i’r mater hefyd fod yn berthnasol i un o’n meysydd blaenoriaeth, unwaith y bydd y rhain wedi eu cwblhau.

Credaf y bydd darparu ymagwedd gynorthwyol, yn arbennig yn ystod y cyfnodau gweithredu cynnar, yn arwain at newid mwy parhaol. Nid wyf eisiau sbarduno agwedd gydymffurfiaeth a allai fethu cyflawni newid o bwys yn agwedd ac ymddygiad cyrff cyhoeddus. Mae angen rhoi amser i gyrff cyhoeddus addasu a gweithio tuag at newid y diwylliant yn eu sefydliadau ac felly ni chanolbwyntiwyd yn y flwyddyn gyntaf ar ddefnyddio pwerau adolygu. Byddaf yn ystyried ymhellach y dull mwyaf priodol o ddefnyddio’r pwerau hyn wrth i ni symud tu hwnt i’r cyfnod cyntaf o bennu amcanion llesiant, asesiadau, cynlluniau a myfyrdod ar y modd y mae’r rhain, mewn gwirionedd, yn cael eu gweithredu. Rwyf felly wedi ceisio herio cyrff cyhoeddus mewn dull adeiladol ar y prosiectau canlynol:

a. **M4:** Rwyf wedi penderfynu canolbwyntio ar yr M4, gan fod prosiect seilwaith graddfa fawr fel hon yn arwyddocaol, o gadw mewn golwg lefel gwariant arfaethedig a gaiff ei ddiwallu gan Genedlaethau’r Dyfodol, a hefyd yr angen am gynigion i gydbwyso ystyriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. O dan y ddeddfwriaeth newydd mae yna ddisgwyliad clir bod angen i’r fath gynigion, yn cynnwys y broses benderfynu ei hunan,

sicrhau bod y pum dull o weithio'n rhan hanfodol o bob gweithgaredd, gan facsimeiddio eu cyfraniad i bob un o'r saith nod llesiant. Ysgrifennais at Ysgrifennydd y Cabinet, nôl ym Mehefin, i amlinellu pryderon cynnar yn cynnwys:

- y modd y mae'r Adroddiad Datblygu Cynaliadwy diweddar (a gyhoeddwyd ym Mawrth 2016) yn cymhwyso'r Ddeddf mewn dull ôl-weithredol, bron er mwyn cyfiawnhau penderfyniad cyfredol nad yw'n gydnaws â darpariaethau na bwriad y Ddeddf.
- cwestiynu casgliad yr adroddiad sy'n datgan "…felly ystyrir bod y Cynllun yn gydnaws ag egwyddorion datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru", gan fod yr adroddiad yn
- canolbwyntio ar y saith nod llesiant a heb fod yn cynnwys unrhyw fanylion ar y modd y mae'r cynigion wedi ystyried tueddiadau hirdymor yn y dyfodol nac ataliad.
- amlygu diffyg integreiddio â chynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol eraill, yn cynnwys y Metro, er mwyn sicrhau datrysiad trafnidiaeth ranbarthol holistig ac integredig i'r rhanbarth neu liniaru tagfeydd trafnidiaeth o gwmpas Casnewydd.

Yn olaf, nid wyf yn teimlo bod yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy wedi cael ei ddefnyddio yn ystod y broses benderfynu, pan yr oedd datrysiadau amgen yn cael eu hystyried ar gyfer lliniaru tagfeydd trafnidiaeth cydnabyddedig a materion capasiti ar y rhan hon o'r M4.

**b. Y Fargen Ddinesig:** Rhaglen £1.2biliwn dros gyfnod o 20 mlynedd yw Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn effeithio ar boblogaeth y disgwylir erbyn hynny iddi fodyn1.8 miliwn yn y 10 awdurdod lleol cysylltiedig. Mae penderfyniadau am y Fargen Ddinesig wedi bod yn cael eu gwneud ers i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddod i rym, sydd felly'n garreg filltir bwysig ym mywyd y Ddeddf. Fel rhaglen 20-mlynedd, mae'r Fargen Ddinesig hefyd yn cynnig cyfle anarferol a gwerthfawr i'r awdurdodau cysylltiedig i weithio ar ffrâm amser hwy, yn arbennig mewn perthynas â chyllidebu. Mae hefyd yn gyfle i ddangos sut y gallai cymhwyso'r Ddeddf i fuddsoddiad cyhoeddus o bwys gyflawni newid trawsffurfiol mewn llesiant a mynd i'r afael â heriau parhaus megis y newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghyfartaledd, cydlyniad cymdeithasol, swyddi a sgiliau mewn dull gwirioneddol hirdymor ac ataliol. Rwyf wedi ysgrifennu at arweinyddion a Gweinidog yn ogystal â Chadeirydd Comisiwn Twf a Chystadleurwydd i sicrhau bod unrhyw argymhellion neu benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar raglen y Fargen Ddinesig yn adlewyrchu'n llawn ofynion y Ddeddf ac yn galluogi'r Fargen Ddinesig i facsimeiddio cyfraniadau tuag at y nodau er mwyn gwella llesiant cymunedau.

**c. (a) Cynorthwyo cyrff cyhoeddus:**

Mae'r gofyniad i bob un o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ymgynghori â'r Comisiynydd ar eu hasesiadau o lesiant yn rhoi cyfle cynnar defnyddiol i sicrhau eu bod yn cael eu datblygu mewn dull sy'n gyson â bwriadau ehangach y Ddeddf. Rwyf wedi cwrdd â phum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hyd yn hyn ac wedi rhoi peth cymorth

anffurfiol yn natblygiad eu hasesiadau. Rydym wedi dylunio'r gwaith hwn yn ofalus i sicrhau ei fod yn cynorthwyo ein hymagwedd gyffredinol tuag at gynorthwyo cyrff cyhoeddus. Cydnabyddwn y dylai'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, os caiff ei gweithredu'n briodol, herio mewn dull sylfaenol fusnes fel arfer ymhlith cyrff cyhoeddus. Rydym yn awyddus, felly, i weithio gyda chyrff cyhoeddus i sefydlu amgylchedd dysgu sy'n heriol a chynorthwyol, gan gydnabod y byddwn ninnau hefyd yn dysgu ochr yn ochr â hwy. Bydd yr adborth i bob un o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi cryfderau ac ardaloedd sy'n gofyn am ddatblygu pellach yn eu hasesiadau.  Bydd yn canolbwyntio ar yr hyn sydd arnynt ei angen i helpu eu Cynlluniau Llesiant i fod yn fecanweithiau mwy effeithiol ar gyfer macsimeiddio eu cyfraniadau i'r nodau llesiant, a thrwy hynny, wella llesiant pobl leol. Byddwn hefyd yn darparu adroddiad diannod a digwyddiad dysgu ar y cyd i gynorthwyo datblygu pellach

**Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol:** Fy nymuniad yw gweithio GYDA chyrff cyhoeddus i newid y diwylliant yn hytrach na sbarduno ymarferion ticio blychau. Her adeiladol yw ein hymagwedd sy'n seiliedig ar gymorth. Rydym yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus i benderfynu ar y cymorth mwyaf defnyddiol. Dywedasant wrthym nad rhannu gwybodaeth ar wefan neu gyflwyno arweiniad statudol yw'r dull mwyaf defnyddiol ac y gall hyn arwain at gydymffurfio yn hytrach nag at newid sylweddol. Mae ein gwaith cyfredol o benderfynu'r dull a'r gwaith cynnar wrth ymdrin â'r hyn sy'n Addas ar Gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys y meysydd canlynol:

- **Caffaeliad**: Rwy'n ystyried sut y gall y £5.5biliwn sy'n cael ei wario'n flynyddol gan y sector cyhoeddus yng Nghymru ar nwyddau a gwasanaethau, gael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n cyflawni manteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol gwirioneddol. Rydym yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i weld sut y gall y pum Dull o Weithio a'r saith Nod Llesiant lywio'r broses gaffael ac felly'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, yn cynnwys gwaith cynnar gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gontractau bwyd newydd.
- **Gofal Plant:** Mae fy nhîm wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru i brofi sut y gellir defnyddio'r pum dull o weithio i herio busnes fel arfer wrth iddynt adolygu eu hymagwedd tuag at ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar, mewn cysylltiad â'r addewid a wnaed i wella gofal plant.
- **Datgarboneiddio:** Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) i baratoi cyllidebau carbon i Gymru a fydd yn nodi sut yr ydym i wireddu lleihad o (o leiaf) 80% yn ein hallyriadau carbon erbyn 2050. Rydym yn gweithio gyda nhw i sicrhau bod y dewisiadau sy'n cael eu datblygu yn cael eu llywio gan yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn ogystal â'r saith nod llesiant.
- Rwyf hefyd wedi cymryd rhan mewn trafodaethau cychwynnol gyda Gweinidogion a swyddogion parthed diwygio llywodraeth leol, sgiliau a chaffaeliad y system Fetro.

**d. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar strategaethau newydd**

Tra nad ydynt yn union yr un fath â phedwar maes blaenoriaeth strategol newydd Llywodraeth Cymru, mae fy mlaenoriaethau'n gydnaws mewn llawer ffordd ac felly efallai y byddwn yn dymuno canolbwyntio trafodaethau cynnar ar sut y gallwn gynorthwyo'r Llywodraeth wrth iddynt weithredu'r Ddeddf yn yr ardaloedd hyn. Rwy'n awyddus i dreialu gwahanol ymagweddau tuag at ddarparu cymorth, gan gadw hyn mewn golwg yn ystod ein cyfnod cyntaf o weithio gyda'r timoedd sy'n datblygu'r cynllun gweithlu ar gyfer y blynyddoedd cynnar, a gweithredu'r addewid ar well gofal plant, a mabwysiadu ymagwedd traws-lywodraethol tuag at leihau carbon. Mae bwriad y gwaith hwn yn ymwneud llawn cymaint â chyd-gynhyrchu ymagwedd tuag helpu cyrff cyhoeddus i feddwl am y modd y maent yn gweithredu'r Ddeddf, ag y mae'n ymwneud â'r materion polisi sydd o dan ystyriaeth. Rydym yn cynnal trafodaethau gydag Academi Wales a nifer o sefydliadau academaidd ar sut y gallent gynorthwyo'r gwaith hwn ac rwy'n teimlo'n obeithiol y bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda ni i dreialu gwahanol ymagweddau a chyfrannu tuag at ddatblygu a chyfoethogi ein dull o weithio.

**e. Llywodraeth Leol**

Mae nifer o gynghorau wedi mynegi pryderon am y gwrthdaro posibl rhwng yr amserlen statudol a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae arweiniad craidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn datgan y dylai cyrff cyhoeddus integreiddio gofynion y ddyletswydd llesiant yn eu prosesau cynllunio corfforaethol.

Fodd bynnag, mae cynghorau'n ofni y gallai'r amserlenni statudol gwahanol sbarduno prosesau ar wahân. Mae fy swyddfa'n gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru i ddarparu eglurhad i gynghorau ar y mater hwn. Byddai'n ddefnyddiol pe gellid creu darn pellach o waith i fapio a deall lleoliad yr heriau ymarferol ar gyfer gweithredu a sut y gellir eu datrys. Ymddengys i mi y byddai'n ddefnyddiol i gael peth gwaith traws-Lywodraethol sy'n cynnwys cyfraniad pob adran yn y gwaith o asesu i ba raddau y mae eu polisi cynlluniedig a chyfredol a'u deddfwriaeth yn cynorthwyo neu'n rhwystro gweithrediad y Ddeddf.

**f. Cyllid**

Wrth ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyllid drafft Llywodraeth Cymru, amlinellais fy marn bod cyllido effeithiol a threfniadau cynllunio'n darparu sylfaen ar gyfer gweinyddiaeth gyhoeddus gadarn. Yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n disgwyl gweld Gweinidogion Cymru'n gwneud defnydd llawn o'r Ddeddf fel dull o weithio ar gyfer newid, yn hytrach na gwneud dim mwy na chydymffurfio â'i gofynion. Am y rheswm hwn, bydd caniatáu digon o amser ar gyfer craffu ystyrlon yn hanfodol wrth sicrhau bod ysbryd a bwriad y Ddeddf yn effeithiol. Bydd hyn hefyd yn caniatáu amser ar gyfer 'diogelu'r dyfodol' yn nhermau gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion, yn ogystal â datganoli cyllidol pellach. Bydd craffu'n ddyfal ar y modd y mae egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi eu cymhwyso â'r broses o bennu cyllidebau yn hanfodol . Yn y pumed Cynulliad hwn mae cyfle gwirioneddol i ddefnyddio'r Ddeddf fel offeryn ar gyfer sbarduno arloesedd a herio busnes fel arfer.

## (2)Archwilio blaenoriaethau'r Comisiynydd yn fwy cyffredinol

Er mwyn cael effaith gwirioneddol sy'n arwain at newid parhaol, rydym yn datblygu ymagwedd strategol, wedi ei dylunio o gwmpas ymgyfraniad, a fydd yn ganolbwynt i fy ngweithgareddau ac yn manteisio i'r eithaf ar fy adnoddau cyfyng. Byddaf yn nodi ardaloedd blaenoriaeth y byddaf yn gweithredu drwyddynt fel canolbwynt i fy nghymorth ar gyfer cyrff cyhoeddus ac ar gyfer sbarduno newid gwirioneddol er mwyn gwella llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Caiff y rhain eu cyhoeddi gyda fy adroddiad blynyddol yn ystod haf 2017.
I sicrhau fy mod wedi nodi'r ffocws cywir ar gyfer gwaith fy nhîm rwyf wedi dylunio proses a fydd yn ystyried:

- ble y gallaf gynorthwyo newid mewn dull effeithiol
- ble y gallaf, gyda fy nhîm, fobileiddio eraill
- a ble mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r heriau mwy sylfaenol hirdymor sy'n wynebu Cymru.

Rydym yn ymgysylltu ac yn ennyn ymgyfraniad drwy sgwrs yn hytrach phroses ymgynghori. Rydym yn cydweithio gydag unigolion, arbenigwyr a phartneriaid gan dreialu dulliau arloesol o weithio yn cynnwys Sensemaker, rhaglen ddigidol sy'n caniatáu i bobl a phartneriaid ddweud wrthym beth sy'n bwysig iddyn nhw a dadansoddi'r ymatebion hyn mewn dull a fydd yn ein helpu i flaenoriaethu a nodi unrhyw fylchau.

Hyd yn hyn mae cyfnod cyntaf y sgwrs wedi helpu i nodi'r prif heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Mae'r heriau cyffredinol a nodwyd hyd yn hyn yn cynnwys:

- Y newid yn yr hinsawdd – canolbwyntio ar leihau allyriadau a mynd i'r afael ag effeithiau.
- Newid economaidd – addasu i economi sy'n newid (gan ganolbwyntio ar y diffiniad o Gymru ffyniannus gyda swyddi a sgiliau da ar gyfer y dyfodol, seiliedig ar gymdeithas garbon isel).
- Newid demograffig – mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd poblogaeth sy'n heneiddio, poblogaeth wledig, blynyddoedd cynnar a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
- Diffyg ymgysylltiad dinasyddion – hybu cyfranogiad ac ymgyfraniad cyhoeddus yn y broses o wneud penderfyniadau.

Byddwn wedyn yn nodi ystod o faterion o fewn pob her a thrwy ehangu'r sgwrs, yn ceisio nodi'r chwe phrif fater o dan bob her lle mae pawb yn cytuno bod yn rhaid gweithredu. Byddwn wedyn yn comisiynu gwaith gan academyddion ac arbenigwyr i helpu i nodi meysydd blaenoriaeth y gall fy nhîm ganolbwyntio arnynt ar gyfer sbarduno gwelliannau gwirioneddol ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Cyn bo hir byddwn yn lansio ail gyfnod y sgwrs.

## Ceisio barn y Comisiynydd ar yr amcanion llesiant a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru

Roedd pennu amcanion llesiant gan Lywodraeth Cymru yn gam arwyddocaol tuag at weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a nodwyd gennyf yn fy ymateb diweddar i gyhoeddiad y Llywodraeth. Nodais hefyd bod Llywodraeth Cymru (yn ychwanegol at fod y corff cyntaf i gyhoeddi

amcanion), yn wynebu heriau ychwanegol sy'n gysylltiedig â bod yn un o gyrff cyhoeddus mwyaf Cymru.

Os ydyw cyrff cyhoeddus i wneud defnydd effeithiol o'r pum dull o weithio er mwyn gwneud y mwyaf o'u cyfraniad i bob un o'r Nodau Llesiant, bydd hyn yn gosod her sylfaenol i fusnes fel arfer. Bydd hefyd yn gofyn am radd arwyddocaol o newid diwylliannol sefydliadol.

Rwy'n awyddus felly bod ymagwedd fy swyddfa'n cynorthwyo gweithrediad y Ddeddf drwy archwilio gyda chyrff cyhoeddus natur y math o newid sy'n ofynnol a'r ffordd orau o'i gynorthwyo. Rwyf hefyd yn cydnabod os bydd cyrff cyhoeddus yn cychwyn o bersbectif cydymffurfio, bod yna berygl arwyddocaol o ymateb arwynebol a fydd yn cynyddu biwrocratiaeth a chost, a fydd o fantais gyfyng. Mae'n bwysig felly bod Llywodraeth Cymru'n gosod esiampl i weddill y sector cyhoeddus drwy sicrhau nad yw'r ymateb i'r Ddeddf yn ymwneud yn unig â chynhyrchu asesiadau effaith, gwaith papur a byrddau goruchwylio, ond eu bod yn newid, yn ymarferol, y ffordd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.

Wrth gyhoeddi eu hamcanion nododd Llywodraeth Cymru eu bod ar siwrnai; nad oedd yr amcanion o reidrwydd yn berffaith a'u bod yn awyddus i weithio gyda fy swyddfa a phartneriaid eraill i'w datblygu ymhellach. Rwy'n croesawu'r gonestrwydd hwn a'r ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth.

Wrth i Lywodraeth Cymru symud tuag at ddatblygu eu hymagwedd tuag at gwrdd â'u hamcanion o fewn y pedair ardal strategol a ddiffiniwyd, bydd yn bwysig iddynt nid yn unig nodi sut y byddant yn cwrdd â'r amcanion, ond hefyd sut y bydd adnoddau'n cael eu clustnodi'n unol â hynny, ynghyd â'r amserlenni. I wneud hyn mewn modd sy'n adlewyrchu'r pum dull o weithio, bydd gan y Llywodraeth ar lefel gwleidyddol a swyddogol rôl yn y dasg o herio'r broses benderfynu a chanlyniadau mewn ffordd sy'n fwy ystyrlon na 'brawddeg gydymffurfio' ar ddiwedd adroddiadau. Rhaid iddynt hefyd gynorthwyo a galluogi newid diwylliannol drwy ganiatáu'r gofod a'r amser i roi cynnig ar ymagweddau gwahanol a sicrhau ymagwedd tuag at arweinyddiaeth, ynghyd â phrosesau a strwythurau'r sefydliad, sy'n annog yn hytrach na mygu arloesedd ac integreiddio. Byddwn yn gweithio gyda nhw i archwilio sut y maent yn bwriadu ystyried yr angen i herio penderfyniadau a wneir yn fewnol sy'n defnyddio hen ffyrdd o weithio a chynorthwyo'r arloesedd sydd ei angen i ddod â bywyd i'r Ddeddf. Rwy'n bwriadu darparu cymorth a her adeiladol yn natblygiad y broses hon.

**Gweithio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru**

Hoffwn gymeradwyo'r ffordd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymgysylltu â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chydnabod eu gwaith wrth ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn arbennig drwy graffu ar eu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf ac wrth graffu ar y gyllideb ddrafft.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda swyddogion y Cynulliad ar eu hyfforddiant ymwybyddiaeth arfaethedig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Rwy'n ymgysylltu â chlercod pwyllgorau i drafod sut y gall aelodau pwyllgor barhau i ddefnyddio'r Ddeddf fel rhan o'u prosesau craffu a chynhaliais sesiynau briffio i helpu datblygiad dealltwriaeth o'r

ddeddfwriaeth. Rwy'n awyddus i archwilio gyda'r Pwyllgor hwn a hefyd gyda'r Llywydd sut y gallem ddatblygu'n perthynas ymhellach, yn ysbryd cydweithio o dan y Ddeddf, i sicrhau craffu cadarn ar weithrediad y Ddeddf, er mwyn sbarduno newid diwylliannol dwfn a pharhaus ar sut y caiff penderfyniadau, polisïau a deddfwriaeth eu dylunio yng Nghymru.

Rwy'n bwriadu cwrdd â'r Llywydd i archwilio'r potensial ar gyfer cynnwys adran newydd yn y Bil Memoranda Esboniadol, cysylltiedig â'r ddeddfwriaeth newydd a fydd yn disgrifio sut y mae'r Pum Dull o Weithio wedi cael eu defnyddio i ddatblygu'r polisi sydd wrth wraidd y bil arfaethedig, yn ogystal â sut y cawsant eu defnyddio i ddatblygu'r ddeddfwriaeth ei hunan. Bydd hyn yn hwyluso craffu a hefyd yn annog pobl sy'n datblygu polisi a deddfwriaeth i ystyried yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r Pum Dull o Weithio.

Yn olaf, hoffwn archwilio sut y gallai'r Cynulliad weithredu yng nghyd-destun yr Wythnos Datblygu Cynaliadwy Ewropeaidd (Mai 30ain – Mehefin 5ed, 2017). Er enghraifft, a fyddai'n bosibl llwyfannu dadl undydd ar ddatblygu cynaliadwy?

Rwy'n edrych ymlaen at drafod fy ngwaith gyda'r Pwyllgor.

Yn gywir,

Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales contactus@futuregenerations.wales futuregenerations.wales

Eitem 4.1

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-04-17 Papur 3/ Paper 3

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/GH

13 Ionawr 2017

Annwyl Gadeirydd

Yn 2015, trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau allgymorth yn Wrecsam ac Abertawe, gyda'r nod o fynd â gwaith y Cynulliad at bobl Cymru. Y rheswm i ni ddewis Wrecsam ac Abertawe oedd oherwydd bod y niferoedd a bleidleisiodd yn y ddwy ardal yn arbennig o isel yn etholiad y Cynulliad yn 2011.

Fel rhan o fentrau Senedd@Wrecsam a Senedd@Abertawe, cyflwynodd staff raglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau, ymweliadau a gweithdai a lwyddodd i ymgysylltu â mwy na 5000 o bobl ynghylch gwaith y Cynulliad. Hefyd, llwyddwyd i feithrin cysylltiadau gwaith newydd â mudiadau lleol allweddol a'r cyfryngau, a roddodd sylw i'r digwyddiadau a gynhaliwyd.

Er mwyn cynnal y momentwm yn sgil ein hymweliadau â Wrecsam ac Abertawe, ac adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd, rwy'n awyddus i drefnu digwyddiad Senedd@ arall yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 20 Mawrth 2017. I barhau â'n taith o amgylch cymunedau Cymru, rydym wedi dewis Casnewydd fel lleoliad menter nesaf Senedd@.

Un o ganfyddiadau'r gwerthusiadau o fentrau blaenorol Senedd@ oedd yr angen i alluogi pwyllgorau i ystyried eu cyfraniad posibl yn gynnar yn y broses gynllunio. Felly, rwy'n gwahodd awgrymiadau gan eich pwyllgor ynghylch sut y gallwch gyfrannu at Senedd@Casnewydd.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Yn ystod mentrau blaenorol Senedd@, cynhaliodd pwyllgorau gyfarfodydd ffurfiol yn y gymuned, gan gymryd y cyfle i annog pobl i ymwneud â'u gwaith. Bydd Senedd@Casnewydd yn gyfle gwych i'ch pwyllgor godi ei broffil a meithrin perthynas waith newydd â llawer o fudiadau a chyfryngau lleol.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Geraint Huxtable ar 0300 200 6277 neu: Geraint.Huxtable@Cynulliad.Cymru.

Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau/
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-04-17 Papur 4/ Paper 4

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

17 Ionawr 2017

Annwyl John,

**Llais cryfach i Gymru: ymgysylltu â San Steffan a sefydliadau datganoledig**

Rydym wedi dechrau ymchwiliad i gysylltiadau rhyngsefydliadol rhwng Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae copi o'r llythyr ymgynghori ynghlwm.

Oherwydd bod gwaith rhynglywodraethol effeithiol yn berthnasol i bob pwyllgor, hoffem glywed unrhyw farn sydd gan eich pwyllgor ar unrhyw faes yn ein cylch gorchwyl.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod nifer o bwyllgorau wedi sefydlu perthynas waith â phwyllgorau ledled y Deyrnas Unedig sy'n rhannu'r un diddordebau â nhw, a byddem yn croesawu unrhyw sylwadau pellach sydd gennych o ran sut y gallwn wella gwaith rhyngseneddol.

Byddwn yn rhannu ein canfyddiadau â holl bwyllgorau'r Cynulliad pan fyddwn wedi gorffen ein gwaith.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Rhagfyr 2016

Annwyl Gyfaill

**Llais cryfach i Gymru: ymgysylltu â San Steffan a'r sefydliadau datganoledig**

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i waith rhyng-sefydliadol. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes gan ddeddfwrfeydd eraill ar y mater hwn, gan gynnwys Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredinol; Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi a Phwyllgor Datganoli (Pwerau Pellach) Senedd yr Alban.

Mae'r Pwyllgor wedi pennu'r amcanion canlynol ar gyfer yr ymchwiliad:

Amcanion yr ymchwiliad:

Llunio egwyddorion arfer gorau ar gyfer dulliau o weithio rhwng sefydliadau ar gyfer deddfwriaeth gyfansoddiadol.

Ystyried gwaith deddfwrfeydd eraill o ran eu dulliau o weithio rhwng sefydliadau ac adeiladu arno pan fo'n ymwneud â meysydd polisi ehangach.

Ceisio, sefydlu a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dulliau o weithio rhwng seneddau, gan gynnwys hyrwyddo'r broses o ymgysylltu â dinasyddion.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Mae'r Pwyllgor wedi rhannu'r gwaith yn ddwy ffrwd. Byddwn yn dechrau gweithio ar yr elfen gyntaf ym mis Ionawr, gyda'r nod o orffen gwaith ar y ddwy ffrwd erbyn haf 2017.

## Cylch gorchwyl

Er mwyn ein helpu gyda'n gwaith, byddem yn croesawu eich barn ar unrhyw un neu bob un o'r pwyntiau canlynol:

**Ffrwd I: Cysylltiadau rhyng-sefydliadol [Materion cyfansoddiadol]**

Adolygu sut y mae cysylltiadau rhyng-sefydliadol wedi dylanwadu ar ddatblygiad datganoli yng Nghymru ers 1998.

Bydd hyn yn ystyried y canlynol:

- Sut y mae dulliau rhyng-lywodraethol wedi effeithio ar ddatblygiad y setliad datganoli.
- Sut y mae cysylltiadau rhyng-lywodraethol wedi datblygu ac esblygu, yr hyn a oedd yn llwyddiannus, a sut y mae'r cysylltiadau hyn wedi effeithio ar y setliad datganoli.
- Sut y mae cysylltiadau rhyng-seneddol wedi esblygu, cyflwr presennol y cysylltiadau hyn, a sut y gellid eu datblygu ymhellach o ran y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth gyfansoddiadol a chraffu arni.

**Frwd II: Cysylltiadau rhyng-sefydliadol [Materion polisi]**

Drwy adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes ar draws y DU er mwyn archwilio ymhellach o fewn y cyd-destun Cymreig:

- Natur y cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, sut  y mae'r cysylltiadau hyn yn gweithredu a sut y gellir eu gwella.

- Gwella cyfleoedd i lywodraethau a seneddau ddysgu am bolisïau ar y cyd.
- Arfer gorau o ran cysylltiadau rhyng-sefydliadol ar draws y DU y gellid ei ddefnyddio yn y cyd-destun Cymreig.
- Natur y cysylltiad rhwng deddfwrfa Cymru a deddfwrfa'r DU a chanfod cyfleoedd a chanfod cyfleoedd i seneddau weithio'n fwy effeithiol â'i gilydd.

Cynnwys unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â chysylltiadau rhyng-sefydliadol, gan gynnwys y goblygiadau perthnasol sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn gadael yr UE.

**Gwahoddiad i gyfrannu**

Mae'r Atodiad yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am weithdrefnau'r ymgynghoriad, a dylid ystyried y rhain yn ofalus cyn cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor. Dylech gyflwyno'ch sylwadau erbyn **dydd Gwener 17 Chwefror 2017.** Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Gareth Williams, Clerc y Pwyllgor ar 0300 200 6362 / SeneddMCD@cynulliad.cymru

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad**

**Cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor**

**Datgelu gwybodaeth**

1. Mae polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth ar gael yma; gofalwch eich bod yn ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Fel arall, mae croeso i chi gysylltu â'r Clerc i ofyn am gopi caled o'r polisi hwn.

**Cyflwyno tystiolaeth**

2. Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i: SeneddMCD@cynulliad.cymru

**Fel arall, gallwch ei hanfon at:**
Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA.

3. Dylai sylwadau gyrraedd erbyn **17 Chwefror 2017.** Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

4. Wrth baratoi eich sylwadau, cadwch y canlynol mewn cof:

- dylai eich ymateb gyfeirio at y cylch gorchwyl;
- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel rheol yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd, ac efallai y cânt eu gweld a'u trafod gan Aelodau'r Cynulliad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Os nad ydych am i'ch ymateb na'ch enw gael eu cyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n glir wrth gyflwyno'r dystiolaeth; a
- nodwch pa un ai fel unigolyn ai ar ran sefydliad yr ydych yn ymateb.

**Canllawiau ar gyfer tystion sy'n darparu tystiolaeth ysgrifenedig i bwyllgorau**

5. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Diben y canllaw byr hwn yw cynorthwyo tystion sy'n cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i bwyllgorau. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddarparu gwybodaeth a gyflwynwyd gan eraill mewn modd hygyrch.

- Defnyddiwch Gymraeg a Saesneg clir gan osgoi jargon diangen.
- Defnyddiwch ffont sydd o leiaf maint 12.
- Defnyddiwch ffont glir sans-seriff, fel Lucida Sans.
- Peidiwch ag ysgrifennu dros luniau, graffeg neu ddyfrnodau.
- Lliwiau a chyferbyniad - dylai'r ysgrifen gyferbynnu gymaint â phosibl â'r cefndir: ysgrifen dywyll ar gefndir golau, ac ysgrifen olau ar gefndir tywyll.
- Peidiwch â defnyddio priflythrennau bloc, a cheisiwch osgoi defnyddio print trwm, print italig a thanlinellu.
- Os ydych yn cyfeirio at ddogfen sydd wedi'i chyhoeddi, rhowch hyperlinc at y ddogfen honno, yn hytrach na'r ddogfen ei hun.

6. Lle bo modd, dylid darparu gwybodaeth gan ddefnyddio Microsoft Word er mwyn sicrhau hygyrchedd. Pan fyddwch chi'n cyflwyno sgan neu ddogfen PDF, yn enwedig llythyrau wedi'u llofnodi neu dablau o wybodaeth, dylech gyflwyno'r ddogfen Word wreiddiol hefyd.

**Cyffredinol**

7. Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan y rhai sydd â diddordeb yn y pwnc hwn. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

8. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill iaith neu'r llall neu'r ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. Ni chaiff cyfraniadau a gyflwynir yn un o'r ieithoedd yn unig eu cyfieithu, ac yn yr iaith honno yn unig y cânt eu cyhoeddi.

9. Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad ysgrifenedig.

10. Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gwahodd amrywiaeth eang o sefydliadau i roi sylwadau; mae rhestr o'r rhain ar gael ar gais. Mae copi o’r llythyr hwn hefyd wedi’i roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau. Fodd bynnag, byddai’r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o’r llythyr ymgynghori a’r Atodiad at unrhyw unigolyn neu sefydliad y credwch yr hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad.

Eitem 4.3

Naomi Alleyne
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd CF10 4LG

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-04-17 Papur 5/ Paper 5

25 Ionawr 2017

Annwyl Naomi

**Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru**

Yr wyf yn ddiolchgar ichi am gymryd rhan yn yr ymchwiliad uchod gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ac yn arbennig am y dystiolaeth lafar a ddarparwyd gennych ar 15 Rhagfyr.

Mae'r Pwyllgor bellach wedi cael tystiolaeth ysgrifenedig gan Grŵp Clearsprings am lety i geiswyr lloches, a byddem yn gwerthfawrogi eglurhad gennych ar y materion canlynol:


- Dywedodd Grŵp Clearsprings (mewn llythyr dyddiedig 18 Ionawr, sydd ar gael yn http://senedd.assembly.wales/documents/s58362/Clearsprings%20Ready%20Homes%20Ltd%20to%20Chair%20-%2018%20January%202017.pdf ) fod gan awdurdodau lleol "reolaeth lawn dros y tai sy'n cael eu defnyddio i gartrefu ceiswyr lloches mewn perthynas â rheoliadau trwyddedu". Byddwn yn

ddiolchgar pe gallech gadarnhau sut y mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod llety i geiswyr lloches yn bodloni gofynion y gyfraith tai yng Nghymru, ac a ydynt yn cael unrhyw gymorth gan y Swyddfa Gartref neu Lywodraeth Cymru i gyflawni eu cyfrifoldebau.

- Hefyd, haerodd Grŵp Clearsprings yn y llythyr fod yn rhaid i'r cwmni gael caniatâd gan "yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu Lleol" cyn y gellir defnyddio tŷ i gartrefu ceiswyr lloches. Byddwn yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â pha sicrwydd y mae awdurdodau lleol yn ei geisio er mwyn rhoi caniatâd o'r fath, a sut y mae'r heddlu'n cymryd rhan yn y broses.
- Byddai'r Pwyllgor hefyd yn hoffi gwybod sut y mae awdurdodau lleol yn cymryd rhan yn y broses o ddyfarnu contractau llety i geiswyr lloches.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau’r ymchwiliad mewn modd amserol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Iau 2 Chwefror.

Yn gywir



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 4.4

Robert Goodwill AS
Y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo
Y Swyddfa Gartref
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau/
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-04-17 Papur 6/ Paper 6

25 Ionawr 2017

Annwyl Robert,

**Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 12 Ionawr ynglŷn â'r ymchwiliad uchod, mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau bellach wedi cael tystiolaeth ysgrifenedig gan Grŵp Clearsprings am lety i geiswyr lloches a thystiolaeth lafar gan Lywodraeth Cymru ar ystod o faterion. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi eglurhad o safbwynt y Swyddfa Gartref ar ddau fater.


Yn gyntaf, mae Rheolwr Gyfarwyddwr Grŵp Clearsprings wedi nodi (mewn llythyr dyddiedig 18 Ionawr, sydd ar gael yn http://senedd.assembly.wales/documents/s58362/Clearsprings%20Ready%20Homes%20Ltd%20to%20Chair%20-%2018%20January%202017.pdf ) bod gan awdurdodau lleol "reolaeth lawn dros y tai sy'n cael eu defnyddio i gartrefu ceiswyr lloches mewn perthynas â rheoliadau trwyddedu". Byddwn yn ddiolchgar

pe gallech gadarnhau a yw'r Swyddfa Gartref yn darparu cymorth ariannol i awdurdodau lleol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Yn ail, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor (ar 19 Ionawr, mae manylion y cyfarfod ar gael yn: http://senedd.cynulliad.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=447&MId=3843&Ver=4 ) fod 27 o blant sy'n ceisio lloches heb gwmni yn cael eu lletya yng Nghymru. Roedd y pwyllgor yn synnu bod y nifer mor isel. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi manylion am y fethodoleg ar gyfer y penderfyniadau y mae'r Swyddfa Gartref yn eu gwneud ar ddyrannu plant o'r fath i Gymru, cadarnhau a oes unrhyw rwystrau o'ch safbwynt chi i gynyddu nifer y plant o'r fath sy'n dod i Gymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Iau 2 Chwefror.

Yn gywir



John Griffiths AC